British Cattle
Movement Service

# Anifeiliaid sy'n cael eu symud i Gymru a Lloegr: Cais am Basbort Gwartheg

## Rheoliadau Adnabod Gwartheg 2007 (fel y'u diwygiwyd)

## Diogelu Data

I gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn trin data personol ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'Siarter gwybodaeth bersonol yr Asiantaeth  Taliadau Gwledig'.

## Gwybodaeth Bwysig

Defnyddiwch y ffurflen hon i wneud cais am basbort gwartheg ar gyfer anifeiliaid sydd wedi symud i Gymru a Lloegr o wlad yn yr Undeb Ewropeaidd (UE), neu o'r tu allan i'r UE. Mae'n rhaid i'r ffurflen hon gael ei chwblhau a'i llofnodi gan y ceidwad mewn perthynas â phob anifail sydd wedi symud i Gymru a Lloegr o wlad yn yr Undeb Ewropeaidd (UE), neu o'r tu allan i'r UE. Fodd bynnag, os caiff gwartheg eu symud i Gymru a Lloegr i'w lladd yn uniongyrchol, nid oes angen gwneud cais am basbort gwartheg, ar yr amod y caiff yr anifeiliaid eu lladd mewn lladd-dy cyn pen 15 diwrnod.

Mae'n rhaid tagio anifeiliaid sydd wedi'u mewnforio i Gymru a Lloegr o wlad o'r tu allan i'r UE eto gyda thag clust swyddogol y DU yn unol â Rheoliadau Adnabod Gwartheg 2007 (fel y'u diwygiwyd) cyn pen 20 diwrnod, a gwneud cais am basbort cyn pen 15 diwrnod o gael tag newydd.

Mae'n drosedd o dan Reoliadau Adnabod Gwartheg 2007 (fel y'u diwygiwyd) i symud anifail sydd wedi'i symud i Gymru a Lloegr oni fydd ganddo basbort wedi'i gwblhau'n gywir sydd wedi'i gyhoeddi gan BCMS. NID yw hyn yn cynnwys y daith o'r man archwilio ar y ffin i leoliad y daliad.

Mae'r ffurflen hon ar gael i'w lawrlwytho yn www.gov.uk

Os caiff anifeiliaid eu mewnforio i Gymru a Lloegr o wlad yn yr UE, neu eu symud i Gymru a Lloegr o Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Ogledd Iwerddon, mae'n rhaid i'r ceidwad wneud y canlynol cyn pen 15 diwrnod iddynt gyrraedd lleoliad y daliad:

- eu cofrestru gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, ac
- ildio'u pasbortau gwartheg (os oes rhai) iddo.

Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys ar ôl i'r anifeiliaid gyrraedd daliad nad yw'n farchnad nac yn faes sioe, os mai hwn yw eu lleoliad cyntaf.

Mae'n rhaid cofrestru'r holl wartheg sydd wedi'u symud i Gymru a Lloegr ar ôl 1 Gorffennaf 1996 gyda Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain.

Ni fydd angen i anifeiliaid sydd wedi cael eu mewnforio i Gymru a Lloegr o wlad yn yr UE ac sy'n cael eu hadnabod yn unol â rheolau Ewrop gael eu tagio eto oni fydd y tag yn aneglur neu wedi'i golli. Os felly, rhaid iddynt gael eu tagio eto gyda thagiau newydd sy'n nodi'r rhif gwreiddiol. Mae'n rhaid gwneud cais am basbortau gwartheg cyn pen 15 diwrnod i'r gwartheg gyrraedd lleoliad y daliad.

Defnyddiwch un ffurflen ar gyfer pob grŵp o anifeiliaid sydd:

- wedi'u symud o'r un wlad; ac
- a gafodd eu symud ar yr un diwrnod; ac
- sy'n cael eu cadw yn yr un daliad.

Ni fydd eich cais yn cael ei gydnabod. Os nad ydych wedi cael eich Pasbortau Gwartheg neu os na fyddwch chi wedi clywed gan BCMS cyn pen 15 diwrnod, cysylltwch â BCMS ar 0345 050 1234 neu 0345 050 3456 os ydych chi'n cadw gwartheg yng Nghymru.

Rhaid dychwelyd ffurflenni wedi'u cwblhau at British Cattle Movement Service, Curwen Road, Workington, Cumbria CA14 2DD. Mae'n rhaid i chi gynnwys y canlynol;

- Rhestr o fanylion yr anifail, a
- Chopi o'r Dystysgrif (Tystysgrifau) Iechyd Allforio (peidiwch ag anfon cop¨au gwreiddiol) a
- Y pasbort tramor gwreiddiol ar gyfer anifeiliaid yr UE neu daflen manylion pasbort yn achos anifeiliaid o Ogledd Iwerddon (peidiwch ag anfon llungop¨au).

**Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr holl ddogfennau ategol yn cael eu cyflenwi a'u bod yn cyfateb. Bydd methu â chyflenwi unrhyw un o'r dogfennau uchod yn arwain at oedi'ch cais.**

## Manylion y daliad

Atodwch label cod bar ar gyfer y daliad lle y cedwir yr anifeiliaid.

**Atodwch y label cod bar yma**

| | |
|---|---|
| Rhif y Daliad drwy'r post (os yw'n wahanol): | |
| Gwlad allforio: | |
| Dyddiad y symudwyd yr anifail i'r daliad: | |
| Dyddiad symud yr anifail i mewn i Gymru a Lloegr: | |

Byddwn yn anfon eich pasbortau i'r cyfeiriad post rydych wedi gofyn i ni ei ddefnyddio ar gyfer pob gohebiaeth. Os hoffech i basbortau'r anifeiliaid hyn gael eu hanfon i gyfeiriad arall, nodwch god y lleoliad (h.y. rhif y daliad) yn y blwch uchod. Os nad ydych yn gwybod beth yw cod y lleoliad, ffoniwch linell gymorth BCMS ar 0345 050 1234.

## Gwnewch yn siŵr eich bod yn edrych ar rif adnabod swyddogol pob anifail cyn cwblhau’r adran hon

Defnyddiwch y cod mwyaf priodol o’r Rhestr Codau Brˆd Swyddogol wrth gofnodi’r brˆd. Er enghraifft, os bydd FR ar y pasbort tramor, defnyddiwch y cod HF neu BF. Parhewch ar ddalen ar wahân os bydd angen, gan restru unrhyw wybodaeth arall y credwch y dylid ei chynnwys ar basbort Prydain Fawr. Er enghraifft, mam faeth neu dad maeth.

| **Rhif Adnabod Swyddogol yr Anifail (Cod y sir, Rhif y fuches a Rhif yr anifail)** | **Brîd** | **Rhyw** | **Rhif Adnabod Swyddogol yr Anifail - y Fam Enetig (os yw’n hysbys) (Cod y Sir, Rhif y Fuches a Rhif yr anifail)** | **Rhif Adnabod Swyddogol Blaenorol yr Anifail (o’r tu allan i’r UE yn unig) (Cod y sir, Rhif y fuches a Rhif yr anifail)** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

## Datganiad ac ymrwymiadau (i'w cwblhau gan yr unigolyn sy'n gwneud cais am y pasbort(au) ym mhob achos).

Mae'r wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen hon yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth.

Rwy'n cytuno y gall unrhyw arolygydd neu arolygydd milfeddygol a benodwyd gan y Gweinidog priodol neu'r Awdurdod Lleol fynd i mewn i'm daliad neu ddaliadau, a hynny gydag unrhyw unigolyn a ystyrir yn angenrheidiol, i gadarnhau cywirdeb y manylion a gofnodwyd ar y ffurflen. Byddaf yn rhoi pob cymorth rhesymol i'r bobl hynny.

### Rwyf wedi amgáu'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Copi o dystysgrifau Iechyd: | |
| Dalenni ychwanegol: | |
| Pasbortau neu allbrintiau yr UE: (Byddwn yn derbyn delweddau wedi'u sganio ar gyfer anifeiliaid sy'n symud o Ogledd Iwerddon i Gymru a Lloegr). | |

**Fe'ch cynghorir i gadw copi o'ch dogfennau gwreiddiol.**

## Rhybudd

**Byddwch mewn perygl o gael eich erlyn os byddwch yn gwneud datganiad sy'n anwir neu'n gamarweiniol, a hynny'n fwriadol neu'n ddi-hid.**

| | |
|---|---|
| Enw mewn PRIFLYTHRENNAU: | |
| Statws: | |
| Llofnod: | |
| Dyddiad: | |

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ar gwblhau'r ffurflen hon, cysylltwch â Llinell Gymorth BCMS ar 0345 050 1234. Mae'r llinell gymorth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8.30am a 5pm. Os ydych chi'n cadw gwartheg yng Nghymru, ffoniwch 0345 050 3456 neu anfonwch e-bost atom yn bcmsenquiries@rpa.gov.uk



CPP16(w) v10.0 Sep 2021